Atodiad 3

# Adolygiad o Gronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r swm canlynol:

| **Cronfa** | **Swm i'w ryddhau £'000** |
|---|---:|
| Cronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor | 8,100 |
| **Cyfanswm** | **8,100** |

**gan ei symud i:**

| **Balansau / Cronfa** | **Swm £'000** |
|---|---:|
| Balansau cyffredinol y Cyngor | 6,600 |
| Cronfa Diogelu Adeiladau | 1,500 |
| **Cyfanswm** | **8,100** |

**Balansau cyffredinol y Cyngor**
Fel sydd yn cael ei nodi yn flynyddol yn yr adroddiad ar y gyllideb i'r Cyngor llawn, mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithredol' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Ar 31 Mawrth 2026 roedd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £7.9 miliwn sydd yn cynrychioli 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor.

Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.

Rydym o'r farn ei bod yn briodol wrth gau cyfrifon 2025/26 ein bod yn adolygu ac yn cynyddu balans y balansau cyffredinol o £6.6 miliwn i £14.5 miliwn, sydd yn golygu fod y gymhareb i wariant refeniw gros y Cyngor yn cynyddu i 2.5% ac felly yn briodol i fedru dygymod gydag

**Cronfa Diogelu Adeiladau**
Yn dilyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet 16 Rhagfyr 2025 ar 'Gyllido gwaith diogelu adeilad Corbett Arms, Tywyn', sef adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd. Mae'r cyn-westy mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd.

Cymeradwywyd swm o £1.5 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor er mwyn cyllido y gwaith i ddiogelu'r adeilad, gan nad oes modd i'r Adran Amgylchedd ymdopi gyda'r fath wariant yn ddi-rybudd o fewn eu cyllideb. Felly mae trosglwyddiad ar ddiwedd y flwyddyn angen ei wneud i'w symud i gronfa benodol ar gyfer y pwrpas.
Adroddiad Cabinet - Corbett Arms.pdf